connecting carers
cysylltu gofalwyr

DIOGELU DATA A PHREIFATRWYDD

Polisi Preifatrwydd

Mae'r Polisi hwn yn olrhain ein harferion casglu a phrosesu data mewn perthynas â defnyddio eich gwybodaeth bersonol.

Hwyrach y byddwn yn newid y Polisi hwn o dro i dro, felly dewch nôl i gymryd cip ar y dudalen hon yn achlysurol i sicrhau eich bod yn fodlon gydag unrhyw newidiadau. Trwy ddefnyddio ein gwefan, rydych yn cytuno i ymrwymo i'r Polisi hwn.

Er mwyn cyflenwi cymorth i Ofalwyr ar ran Credu Cysylltu Gofalwyr, Gofalwyr Ceredigion a Gofalwyr Ifainc WCD, mae'n angenrheidiol inni gasglu, coladu a phrosesu data am Ofalwyr, Gofalwyr Ifainc, Gweithwyr, Gwirfoddolwyr ac unigolion eraill.

Fel Rheolydd Data, rydym yn penderfynu diben a'r dulliau i brosesu gwybodaeth, ac yn sicrhau bod gennym weithdrefnau i ddiogelu unrhyw wybodaeth bersonol a/neu sensitif rydym yn ei thrin. Rydym wedi cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (www.ico.org.uk)

Rydym hefyd yn Brosesydd Data ar gyfer Cyngor Sir Powys (Credu Cysylltu Gofalwyr), Cyngor Sir Ceredigion (Gofalwyr Ceredigion) a Chynghorau Wrecsam, Sir Ddinbych a Chonwy (Gofalwyr Ifainc WCD).

Wrth ichi gofrestru gyda ni neu wneud cais am wybodaeth neu gymorth, rydym yn casglu gwybodaeth amdanoch. Hefyd weithiau, byddwn yn casglu gwybodaeth a roddir inni gennych wrth ichi lenwi arolygon, ar ffurflenni archebu a ffurflenni cais, wrth roi adborth a chymryd rhan mewn cystadlaethau o'ch gwirfodd.

Rydych yn rhannu'ch manylion personol gyda ni o'ch gwirfodd; fodd bynnag, heb roi eich data personol inni, hwyrach na fyddwch yn gallu (fel sy'n briodol) derbyn cymorth, newyddion a diweddariadau, gwneud cyfraniad, gwneud cais am swydd gyda ni neu wneud cais i wirfoddoli gyda ni, neu gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau a materion llywodraethu. Ein gobaith yw y bydd gennych ffydd ynom i ofalu am eich gwybodaeth - er mwyn inni gadw mewn cysylltiad!

Cesglir rhywfaint o wybodaeth yn awtomatig wrth ichi ymweld â'n gwefan. Er enghraifft gellir cofnodi'n awtomatig system gweithredu'ch cyfrifiadur, eich cyfeiriad IP, amseroedd ymweld, y math o borwr ac iaith, a/neu safle gwreiddiol eich chwiliad. Does dim cysylltiad rhwng yr wybodaeth yma a'ch gwybodaeth bersonol.

Pwy ydym ni:

Manylion Cyswllt:
Gwasanaeth Gofalwyr Powys Cyf (Rhif Cwmni Cofrestredig: 4779458),
Marlow
Llandrindod
Powys
LD1 5DH

Cofrestrwyd enwau Gwasanaeth Gofalwyr Powys, Credu Cysylltu Gofalwyr, Gofalwyr Ifainc Powys, Gofalwyr Ceredigion a Gofalwyr Ifainc WCD gyda'r Comisiwn Elusennau; Rhif Elusen Gofrestredig: 1103712

Ebost: carers@credu.cymru
Rhif ffôn: 01597 823800

Pam bod angen inni brosesu eich data personol

Er mwyn cyflenwi amrediad o wasanaethau i Ofalwyr ym Mhowys, Ceredigion, Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych megis:

• gwybodaeth, cyngor, cymorth a gweithgareddau i Ofalwyr
• cadw ein cyfrifon a'n cofnodion gan gynnwys prosesu rhoddion a grantiau
• cefnogi a rheoli ein gweithwyr a gwirfoddolwyr
•hyrwyddo'r gwasanaethau a ddarperir gan Credu Cysylltu Gofalwyr a Gofalwyr Ifainc WCD
• cynnal ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd
• cynnal arolygon a gwaith ymchwil

Mae angen inni gael mynediad at a gallu defnyddio gwybodaeth bersonol am Ofalwyr, y bobl maent yn gofalu amdanynt, Rhieni/Gwarcheidwaid, staff, gwirfoddolwyr ac amrediad o sefydliadau, gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol eraill. Gall yr wybodaeth fod yn sensitif ei natur, felly mae gennym weithdrefnau i'w diogelu a sicrhau:

• ein bod yn casglu cymaint o wybodaeth sydd ei angen yn unig, a dim manylion pellach
• fod yr wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol
• y defnyddir yr wybodaeth ar gyfer y pwrpas a nodwyd yn unig
• ein bod yn cadw'r wybodaeth am y cyfnod sydd ei angen yn unig

Ni fyddwn yn datgelu unrhyw wybodaeth bersonol i drydydd barti at ddibenion marchnata, nac yn defnyddio data personol mewn ffordd a all achosi anfantais ddiwarant.

Er hynny, mae rhai amgylchiadau lle mae gofyn cyfreithiol inni ddatgelu gwybodaeth:

• datgeliadau'n unol â'r gyfraith
• at ddibenion darganfod/atal twyll
• archwilio/gweinyddu cyllid cyhoeddus ac elusennol

Caiff yr wybodaeth ei phrosesu gennym yn y DU. Fodd bynnag, byddwn yn eich hysbysu yn ein 'Hysbysiadau Preifatrwydd' os nad yw hynny'n wir mewn unrhyw achos.

Byddwn ond yn rhannu eich gwybodaeth os oes angen inni wneud hynny, megis os caiff gwasanaethau eu cyflenwi ar y cyd â sefydliadau eraill. Byddwn yn eich hysbysu pwy yw'r sefydliadau hyn wrth gasglu eich gwybodaeth.

Pa fath o ddata personol ydym ni'n ei drin?

Er mwyn cyflawni ein swyddogaethau, hwyrach y byddwn yn derbyn, yn defnyddio ac yn datgelu data personol gan gynnwys y canlynol:
• Manylion personol
• Teulu a manylion am eich rôl gofal
• Ffordd o fyw ac amgylchiadau cymdeithasol
• Manylion ariannol
• Manylion gwaith ac addysg
• Anghenion o safbwynt tai
• Lluniau
• Gwybodaeth o ffeiliau achos
• Manylion iechyd corfforol neu feddyliol
• Tarddiad hiliol neu ethnig
• Manylion crefyddol neu gredoau eraill tebyg eu natur

Byddwn ond yn defnyddio'r data personol priodol angenrheidiol er mwyn bodloni diben neu ddibenion penodol. Gall data personol olygu gwybodaeth a gedwir ar gyfrifiadur neu ei systemau neu fel cofnod ysgrifenedig h.y. fel ffeil neu luniau.

Gwybodaeth pwy yw testun y prosesu

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir uchod dan y pennawd 'Pam rydym yn prosesu eich data personol' hwyrach y byddwn yn derbyn, defnyddio ac yn datgelu data personol am y canlynol:

• Gofalwyr a Gofalwyr Ifainc a'r bobl maent yn gofalu amdanynt
• Cyflenwyr
• Staff, unigolion sydd â chontract i ddarparu gwasanaeth
• Gwirfoddolwyr
• Ymddiriedolwyr ac Aelodau
• Pobl sy'n codi arian a chefnogwyr
• Pobl sy'n cwyno, sy'n anfon ymholiadau neu eu cynrychiolwyr

• Ymgynghorwyr a chynghorwyr proffesiynol
• Cynrychiolwyr sefydliadau eraill

O ble daw'r data personol?

Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau a ddisgrifir uchod, hwyrach y bydd angen inni gael data personol o ffynonellau amrywiol iawn, gan gynnwys y canlynol:

• Unigolion eu hunain
• Perthnasau, gwarcheidwaid neu unigolion eraill sy'n gysylltiedig â'r person dan sylw
• Sefydliadau'r sector gwirfoddol
• Llywodraeth ganolog, asiantaethau ac adrannau'r llywodraeth
• Cyflogwyr presennol, y gorffennol neu ddarpar gyflogwyr yr unigolyn
• Cynghorwyr neu ymarferwyr gofal iechyd, cymdeithasol a lles
• Sefydliadau addysg a hyfforddi
• Cyflenwyr neu ddarparwyr nwyddau neu wasanaethau
• Unigolion sy'n cyflwyno ymholiad neu gŵyn
• Ymgynghorwyr meddygol a meddygon teulu
• Llywodraeth leol
• Gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus ar y rhyngrwyd

Rhannu eich gwybodaeth bersonol

Fel rhan o'n gwaith ar ran Cynghorau Sir Powys, Ceredigion, Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych, hwyrach y byddwn yn rhannu gwybodaeth am Ofalwyr a Gofalwyr Ifainc gyda nhw fel 'tasg gyhoeddus' yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd y 'Gofrestr Gofalwyr' hon yn cynnwys:

- Manylion cyswllt Gofalwyr
- Dyddiad geni
- Y cysylltiad gyda'r unigolyn sy'n derbyn gofal
- Grŵp Defnyddwyr Gwasanaeth yr unigolyn sy'n derbyn gofal
- Unrhyw 'Asesiad Gofalwr/Gofalwr Ifanc' a gynhelir ar ran yr Awdurdod Lleol

Hwyrach y byddwn yn awgrymu sefydliadau a gwasanaethau eraill all fod o gymorth ichi, ond byddwn yn trosglwyddo eich gwybodaeth i'r rhain yn unig gyda'ch caniatâd chi, oni bai bod risg i rywun.

Os rhennir gwybodaeth gyda sefydliadau eraill neu os caiff ei phrosesu ar ein rhan ni, byddwn yn sicrhau y diogelir yr wybodaeth mewn ffordd briodol trwy sicrhau fod contractau a chytundebau rhannu mewn bodolaeth. Bydd y rhain

yn diffinio maint y data fydd yn cael ei rannu, sut y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio, a bydd yn gorfodi rheolau diogelwch i ddiogelu eich gwybodaeth.

Mae gofyn i bob aelod o staff a gwirfoddolwr sy'n trin gwybodaeth bersonol ddilyn hyfforddiant perthnasol i sicrhau y caiff data personol ei brosesu yn unol ag egwyddorion deddfwriaeth diogelu data.

Am faint ydym yn cadw eich gwybodaeth

Byddwn ond yn cadw eich gwybodaeth am gyn lleied o amser ag sydd ei angen. Ar ôl hyn, caiff yr wybodaeth ei dileu/dinistrio yn unol ag amserlenni cadw gwybodaeth gymeradwy'r cyngor. Gweler yr 'amserlen cadw gwybodaeth' sy'n egluro am faint rydym yn cadw gwybodaeth.

Amserlen Cadw Gwybodaeth

Eich hawliau

Cais Gwrthrych am Wybodaeth - gallwch wneud cais i weld a derbyn copi o wybodaeth amdanoch sy'n cael ei ddefnyddio gennym. Mae hyn yn cynnwys pam y cedwir yr wybodaeth a pha fath o benderfyniadau a wneir trwy ddefnyddio'r wybodaeth yna.

I wneud y cais yma, dylech gysylltu â ni drwy e-bostio: carers@credu.cymru neu drwy ffonio 01597 823800

Hawl i gael eich hysbysu - mae gennych hawl i dderbyn gwybodaeth sy'n egluro pam a sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth. Enwau'r hysbysiadau hyn yw Hysbysiadau Preifatrwydd.

Hawl i gywiro – mae gennych hawl i gywiro neu gwblhau gwybodaeth bersonol os yn eich bach chi mae'n anghywir neu anghyflawn.

Hawl i gael ei anghofio – mae gennych hawl i ofyn dileu gwybodaeth bersonol os nad oes gennym reswm gorfodol i barhau i'w defnyddio.

Hawl i atal neu gyfyngu – gallwch ofyn inni roi'r gorau i ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol oherwydd rhesymau penodol ac mewn ffyrdd penodol.

Hawl i hygludedd - yn dibynnu ar y rhesymau a'r ffordd rydym yn defnyddio eich gwybodaeth, hwyrach y bydd gennych hawl i gael ac ailddefnyddio eich gwybodaeth, i symud eich gwybodaeth o un system TG i system arall. Mae hyn yn berthnasol yn unig os taw wybodaeth a roddwyd inni gennych chi, rydych wedi cytuno inni ei defnyddio, neu rydym yn ei defnyddio oherwydd contract, a defnyddir yr wybodaeth trwy gyfrifiadur.

Hawl i wrthwynebu - rydych yn cael gwrthwynebu inni ddefnyddio eich gwybodaeth mewn rhai achosion, megis marchnata uniongyrchol.

Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniad awtomatig gan gynnwys proffilio – lle gallwch ofyn i rywun ymyrryd yn y broses o wneud penderfyniad.

Sut i wneud ymholiad neu gofrestru cwyn

Yn dibynnu ar y rheswm dros yr angen inni brosesu eich gwybodaeth, bydd gennych hawliau penodol o ran sut y caiff ei defnyddio. Nodir y rhain yn yr Hysbysiadau Preifatrwydd a ddarperir.

Mae gennym sail gyfreithiol o ran casglu a phrosesu gwybodaeth sy'n angenrheidiol i gyflenwi gwasanaethau. Mae gennych hawl i ofyn inni roi'r gorau i neu gyfyngu defnyddio'ch data personol mewn perthynas ag unrhyw wasanaeth. Fodd bynnag, gall hyn achosi oedi neu ein hatal wrth inni ddarparu gwasanaeth ichi. Ble bynnag fo'n bosib byddwn yn ymdrechu i gydymffurfio â'r ceisiadau hyn ond hwyrach ni fydd hyn yn bosib lle bo gofyn inni wneud hynny o safbwynt cyfreithiol neu yn achos risg o niwed.

Cofiwch gysylltu â ni os hoffech:
• Gweld eich gwybodaeth, gofynnir ichi gyflwyno cais (Cais Gwrthrych am Wybodaeth)
• Dilysu, cywiro neu ddiweddaru eich gwybodaeth
• Deall sut rydym wedi cyrraedd penderfyniad sy'n ymwneud â chi
• Os oes gennych bryder, cwyn, gwrthwynebiad neu os hoffech ofyn am gyfyngiad o ran sut rydym yn prosesu eich data
• Byddwn yn ymdrechu i ymateb i bob ymholiad o fewn 28 diwrnod o'u cyflwyno.

Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau:

Nid oes gofyn cyfreithiol inni gael 'Swyddog Diogelu Data' ond ein Swyddog Gweithrediadau sy'n gyfrifol am Ddiogelu Data. Gallwch gysylltu â ni ynghylch Diogelu Data trwy e-bostio: carers@credu.cymru, ffonio 01597 823800 neu ysgrifennu: At Sylw'r Swyddog Gweithrediadau, Marlow, Cilgant y De, Llandrindod. LD1 5DH

I gael cyngor annibynnol ar ddiogelu data, preifatrwydd a materion rhannu data, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ar: www.ico.org.uk

Diogelu eich data personol?

Mae diogelwch unrhyw ddata personol dan ein rheolaeth yn hynod bwysig i Credu. Byddwn yn sicrhau bod unrhyw fesurau polisi, hyfforddiant, technegol a gweithdrefnol yn bodoli i ddiogelu ein systemau gwybodaeth llaw ac electronig o golli a chamddefnyddio data, a chaniatáu iddynt gael mynediad pan fydd rheswm dilys dros wneud hynny.

Gwybodaeth ar sut rydym yn defnyddio cwcis

Wrth ddefnyddio'r wefan hon, cedwir rhywfaint o ddata (cwcis) ar eich cyfrifiadur.

Mae'r cwcis hyn yn hanfodol er mwyn inni ddarparu gwasanaeth da dros y we ichi. Nid ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion marchnata, ac ni chedwir unrhyw wybodaeth yn (ac nid yw'n hygyrch gan) ein cwcis. Yn syml iawn, maent yn helpu'r wefan i weithio.

Rydym yn eu defnyddio ar y wefan hon i wella gwasanaethau a ddarperir ichi, trwy er enghraifft:
• sicrhau y caiff eich dyfais ei adnabod ac nid oes rhaid ichi roi'r un wybodaeth nifer o weithiau yn ystod un dasg
• mesur faint o bobl sy'n defnyddio ein gwefan, er mwyn inni allu bodloni'r galw
• deall sut mae pobl yn cael mynediad at yr wybodaeth ar ein gwefan trwy beiriannau chwilio, inni ei deilwra i'w wneud yn haws i bobl gael hyd i wybodaeth.

Cwcis ar wefan www.credu.cymru gan gwmnïau eraill a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol

Wrth ymweld â'r wefan, hwyrach y byddwch yn sylwi ar rai cwcis nad ydynt yn gysylltiedig â www.credu.cymru. Mae hyn yn digwydd wrth ichi ymweld â thudalen sy'n cynnwys gwybodaeth trydydd parti (er enghraifft, fideos YouTube) neu sy'n defnyddio dolenni at safleoedd rhwydweithio cymdeithasol. Hwyrach y bydd y gwefannau hyn yn gosod cwcis ar eich cyfrifiadur.

Nid yw Credu'n gallu rheoli sut mae trydydd parti'n defnyddio eu cwcis nhw. Dylech wirio polisïau preifatrwydd gwefannau'r trydydd parti am fwy o wybdoaeth am eu cwcis os oes gennych bryderon am hyn.

Mae Credu'n argymell yn gryf nad ydych yn atal cwcis gwefannau credu.cymru, oherwydd maent yn angenrheidiol i wneud i'n gwefan weithio'n effeithiol ichi.

Gwefannau eraill

Mae ein gwefan yn cynnwys dolenni at wefannau eraill. Mae'r polisi preifatrwydd hwn yn berthnasol yn unig i'r wefan hon, felly wrth gysylltu â gwefannau eraill, dylech ddarllen eu polisïau preifatrwydd unigol.

Newidiadau i'n polisi preifatrwydd

Rydym yn adolygu ein polisi preifatrwydd yn barhaus, a byddwn yn cyhoeddi unrhyw ddiweddariadau ar y dudalen we hon.

Dyddiad y diweddariad diweddaraf i'r polisi preifatrwydd hwn oedd 26ain Ionawr 2021.